**Sesiwn 1999-2000 Rhif 46**

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MERCHER, 2 CHWEFROR 2000

**Dechreuodd y sesiwn am 2pm**

**Cwestiynau i Rosemary Butler, Ysgrifennydd Addysg (Cyn 16 oed)**
Gofynnwyd y **5** cwestiwn cyntaf

**2.20pm**
**Cwestiynau i Christine Gwyther, Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**
Gofynnwyd y **5** cwestiwn cyntaf (Cymerwyd cwestiynnau **2 a 6** gyda'i gilydd)

**2.42pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000**
Cynnig bod y Cynulliad yn:

1. ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar Orchymyn drafft y "Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2000;
2. ystyried egwyddor y Gorchymyn; ac
3. yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2000

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 42

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 42

**Cymeradwywyd y cynnig**

**2.47pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru)**

**(Diwygio) 2000**
Cynnig bod y Cynulliad yn:

(a) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar Orchymyn drafft "Rheoliadau Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol (Ardollau) (Cymru) (Diwygio) 2000" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2000.

(b) ystyried egwyddor y Gorchymyn; ac

(c) yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2000

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 39

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 39

**Cymeradwywyd y cynnig**

**2.52pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned Diwygio (Cymru) 2000**
Cynnig bod y Cynulliad yn:

a. ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y Rheoliadau drafft "Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned – Diwygio - (Cymru) 2000" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr 2000.

(b) ystyried egwyddor y Rheoliadau; ac

(c) yn cymeradwyo gwneud y Rheoliadau yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2000

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 38

Ymatal 0

Yn erbyn 0

Cyfanswm 38

**Cymeradwywyd y cynnig**

**2.56pm**
**Dadl ar ymateb y Cynulliad i raglen ddeddfau Llywodraeth San Steffan**
Bod y Cynulliad, yn unol â'r penderfyniad a wnaeth ar 8 Rhagfyr 1999:

- yn cymeradwyo'r ymateb i raglen ddeddfu Llywodraeth y DU fel y'i gosodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr ac yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i gyfleu'r ymateb hwnnw i Ysgrifennydd Gwladol Cymru; ac
- yn parhau i gefnogi'r egwyddor y dylai unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n effeithio ar Gymru drosglwyddo'r holl swyddogaethau priodol i'r Cynulliad mewn ffordd hyblyg a'i fod a'r Cabinet yn parhau i bwyso ar y Llywodraeth i arddel yr egwyddor hon yn ei holl Fesurau; ac
- yn cymeradwyo'r protocol drafft ar gynigion y Cynulliad ar gyfer deddfau sylfaenol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr ac yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i ofyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru roi sêl ei fendith iddo; ac
- yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i gyflwyno i'r pwyllgor busnes gynigion ar gyfer diwygio'r Rheolau Sefydlog i ddod â'r protocol i rym cyn gynted â phosibl

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth – ond bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol.

(1+8)

(2+3+4)

(5+6+7+9)

**Gwelliant 1. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**
Yn y pwynt bwled cyntaf, dileu "cymeradwyo" a rhoi yn ei le "nodi".

**Gwelliant 2. Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
Yn y pwynt bwled cyntaf, dileu "cymeradwyo'r ymateb" a rhoi yn ei le "nodi ymateb y weithrediaeth".

**Gwelliant 3. Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
Yn y pwynt bwled cyntaf, ar ôl "26 Ionawr" rhoi "ond yn mynegi pryder nad yw'r ymateb yn sôn am y Mesur Cyllid sydd ar y gweill a'r angen i dderbyn cyllid cyfatebol llawn ar gyfer rhaglenni Amcan 1 yn y Mesur hwnnw,".

**Gwelliant 4 . Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
Yn y pwynt bwled cyntaf, ar ôl "26 Ionawr" rhoi "ond yn gresynu bod 'hawl i grwydro' wedi'i chynnwys yn y Mesur Cefn Gwlad,".

**Gwelliant 5 . Mike German (Dwyrain De Cymru)**
Rhoi ar ôl "Ysgrifennydd Gwladol Cymru" yn y pwynt bwled cyntaf: "yn amodol ar ddiwygiadau i adlewyrchu barn y Cynulliad hwn:

- y dylid rhoi hyblygrwydd i'r Cynulliad gymeradwyo modelau o lywodraeth leol yng Nghymru sy'n adlewyrchu'n agos ei strwythur ei hun
- y dylid rhoi'r un pwerau i'r Cynulliad ag a roddwyd i Senedd yr Alban i gyfarwyddo'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol mewn perthynas ag un ffranseis rheilffyrdd i Gymru
- y dylid gwrthwynebu unrhyw symudiadau yn y Mesur Gwasanaethau Post a fyddai'n golygu bod llai o swyddfeydd post ym mhob rhan o Gymru, boed wledig neu drefol".

**Gwelliant 6. Mike German (Dwyrain De Cymru)**
Rhoi ar ôl "Ysgrifennydd Gwladol Cymru" yn y pwynt bwled cyntaf: "yn amodol ar ddiwygiadau i adlewyrchu barn y Cynulliad hwn:

- bod diddymu hawl diffynyddion i ddewis treial gan reithgor a gynigir yn y Mesur Cyfiawnder Troseddol (Dull y Treial) yn effeithio'n ddifrifol ar hawliau sifil".

**Gwelliant 7. Mike German (Dwyrain De Cymru)**
Rhoi ar ôl "Ysgrifennydd Gwladol Cymru" yn y pwynt bwled cyntaf: "yn amodol ar ddiwygiadau i adlewyrchu barn y Cynulliad hwn:

- na ddylid defnyddio profion cyffuriau gorfodol oni chyhuddwyd rhywun o drosedd yn ymwneud â chyffuriau
- y dylid ehangu cwmpas y Mesur Rhyddid Gwybodaeth arfaethedig i lefel debyg i'r hyn a gynigir yn Senedd yr Alban
- y byddai cyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol mewn etholiadau llywodraeth leol yn ffordd well o gynyddu atebolrwydd mewn awdurdodau lleol yng Nghymru".

**Gwelliant 8. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)**
Yn yr ail bwynt bwled, ar ôl y geiriau "a'i fod" ychwanegu "drwy'r pwyllgorau pwnc".

**Gwelliant 9. Mike German (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu at y diwedd: "Mae angen eglurhad pellach, fodd bynnag ar y Cynulliad hwn ar y protocol drafft ar bwerau deddfwriaeth sylfaenol y Cynulliad i gadarnhau:

- na fyddai defnyddio'r geiriau "fel y bo'n briodol" ym mhwyntiau 7 a 15 yn caniatáu disgresiwn i'r Ysgrifennydd Gwladol ddewis a fydd cynigion y Cynulliad yn cael eu cyfleu i'w gyd-Weinidogion ai peidio
- na fyddai defnyddio'r geiriau "ble'n briodol" ym mhwynt 12 yn caniatáu disgresiwn i Ysgrifennydd perthnasol y Cynulliad ddewis a ddylid ymgynghori â'r pwyllgor pwnc perthnasol ai peidio
- a diwygio'r protocol yn unol â hynny yn ôl yr angen."

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 23

Ymatal 1

Yn erbyn 21

Cyfanswm 45

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Gwelliant 2**

O blaid 20

Ymatal 1

Yn erbyn 28

Cyfanswm 49

**Gwrthodwyd y gwelliant**

**Gwelliant 3**

O blaid 26

Ymatal 0

Yn erbyn 23

Cyfanswm 49

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Gwelliant 4**

O blaid 7

Ymatal 19

Yn erbyn 23

Cyfanswm 49

**Gwrthodwyd y gwelliant**

**Gwelliant 5**

O blaid 41

Ymatal 8

Yn erbyn 0

Cyfanswm 49

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Gwelliant 6**

O blaid 41

Ymatal 4

Yn erbyn 4

Cyfanswm 49

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Gwelliant 7**

O blaid 6

Ymatal 15

Yn erbyn 28

Cyfanswm 49

**Gwrthodwyd y gwelliant**

**Gwelliant 8**

O blaid 48

Ymatal 1

Yn erbyn 0

Cyfanswm 49
**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Gwelliant 9**

O blaid 35

Ymatal 14

Yn erbyn 0

Cyfanswm 49

**Cymeradwywyd y gwelliant**

**Y cynnig fel y'i diwygiwyd**

O blaid 19

Ymatal 23

Yn erbyn 7

Cyfanswm 49

**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**4.57pm**

**Dadl Fer :**

**John Marek (Wrecsam); Prif Lein Gogledd Cymru**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.28pm**

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 8 Chwefror 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD GERBRON Y CYNULLIAD

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 1 CHWEFROR 2000

Cyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2000-01 i 2002-03 - Nodyn Esboniadol
Cyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2000-01 i 2002-03 (Cyllideb mis Rhagfyr)
Cyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2000-01 i 2002-03 (Cyllideb Derfynol gan gynnwys Trosglwyddiadau)
Gorchymyn Railtrack plc (Gwerth Ardrethol) (Cymru) 2000
Rheoliadau Awdurdoau Lleol (Newid Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2000
Rheoliadau Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Cymru) 2000
Rheoliadau Hadau (Ffioedd) Diwygio) (Cymru) 2000

Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol 2000-01